

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Talylychau o bell trwy fideo/dros y ffôn nos Fawrth, 6 Ebrill 2021, am 8 p.m.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Trwy fideo: Sarah Walters (Cadeirydd), Janine Roberts, Pauline George, Steve Haines a Jane Morgan (Clerc). Dros y ffôn: Marged Bowen a John Williams.

Ymddiheuriadau: Eifion Roberts, Rhys Williams, a'r Cynghorydd Sir Joseph Davies.

Datganiad o Fuddiant. Datganodd Janine Roberts fuddiant. Cais cynllunio PL/01573. Maes y Deri, Talylychau.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Materion yn codi.

Cynllunio. Pwnc: PI/0000073 – Ail-ymgynghori ar gais cynllunio. Cynnig am gromenni pridd cynaliadwy gydag uned amlbwrpas ategol ac ardal storio beiciau – Rhyd-ar-Wen, Cwm-du. Ail-ymgynghoriad:

Cynlluniau Diwygiedig/Gwybodaeth Ychwanegol Wedi Dod i Law. Ar ôl cael rhagor o wybodaeth gan y Cynghorydd Sir Joseph Davies a anfonwyd ymlaen at y Cynghorwyr, ni wnaed unrhyw sylwadau.

Roedd ymateb wedi dod i law gan Gyngor Sir Caerfyrddin am y geuffos rhwng Fferm Maendy a Fferm Penybanc a oedd wedi blocio, yn nodi y byddai Arolygydd y Priffyrdd yn ei gwirio ac yn gweithredu yn ôl yr angen.

Y gyfriflen banc ddiweddaraf a cheisiadau am dâl. Y balans ar y gyfriflen ar 25 Mawrth 2021 oedd £6,081.91.

Cytunwyd i dalu'r canlynol: Cyflog y Clerc £168.88; Cyllid a Thollau ei Mawrhydi £42.20; Gwasanaeth Cyfieithu Trywydd £33.55; Cyngor Sir Caerfyrddin, Goleuo'r Droedffordd £710.21; Aelodaeth Un Llais Cymru £82.00; J.G. Evans, gwaith i'r cerrig beddau ym Mynwent yr Eglwys £100.00.

Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a thrwy e-bost.

Cafwyd llythyr gan Gylch Meithrin Llansawel yn gofyn am gymorth. Cytunwyd i roi £100.00.

Cafwyd copi o Un Llais Cymru – Arweiniad i'n Gwasanaethau.

Cafwyd llythyr gan y Lleng Brydeinig Frenhinol, Llandeilo a oedd yn codi arian i brynu a gosod dwy fainc goffa er cof am D T Davies OBE, MM a hefyd ar gyfer y Lleng Brydeinig Frenhinol sy'n dathlu ei chanmlwyddiant eleni.

Roedd llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin wedi dod i law ynghylch: Hysbysiad Cyhoeddus – Gwaharddiad Arfaethedig ar Stopio y tu Allan i Ysgolion.

Cafwyd e-bost gan Trevor Watson yn nodi bod grŵp o drigolion lleol wedi trafod y posibilrwydd o gynnig cymorth i adleoli teulu o ffoaduriaid i ardal Talylychau. Roedd am gael barn y Cyngor ar y mater.

Cytunwyd i ymateb fel a ganlyn: "Cymysg oedd meddyliau'r Cynghorwyr ar y mater. Ni allant siarad ar ran y gymuned, wrth reswm."

Torri Glaswellt y Fynwent. Cytunwyd i dderbyn y tendr a ddaeth i law gan M & J Maintenance dan yr enw Grave Concerns am £600 y toriad. Cyfanswm y gost £3,000.

Torri Glaswellt y Cae Cymunedol. Cytunwyd i dderbyn y tendr a ddaeth i law gan F. Lewis am £120 y toriad yn ogystal ag 20% TAW.

Mantolen Flynyddol. Anfonwyd y fantolen trwy e-bost at yr holl Gynghorwyr i'w harchwilio.

Roedd sic o £96.55 wedi cael ei chyflwyno i'r banc am y swm o £95.66. Byddai camgymeriad y banc am y swm o £0.89 yn cael ei gywiro gan y banc. Nid oedd sic o £100.00 a roddwyd i Apêl Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael ei chyflwyno eto. Nid oedd sic o £100.00 a roddwyd i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Talylychau wedi cael ei chyflwyno eto. Cytunwyd gan bawb fod y fantolen a'r Datganiad o Gyfrifon ar 31 Mawrth 2021 yn gywir. I'w llofnodi gan y Cadeirydd a'r Clerc. Byddai'r fantolen yn cael ei rhoi ar y ddau hysbysfwrdd ac ar y wefan.

Cafwyd yr Hysbysiad o Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi pennu dydd Llun 20 Medi 2021 yn ddyddiad y gallai etholwyr arfer eu hawliau. Byddai'n rhaid i'r ffurflen dreth flynyddol gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i chymeradwyo gan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2021.

Gofynnodd Margaret Bowen am gael trafod cyflog y Clerc. Gadawodd y Clerc, Jane Morgan, y cyfarfod. Cytunwyd i roi hyn ar yr Agenda i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. Daeth y Clerc, Jane Morgan, yn ei hôl i'r cyfarfod.

Roedd y Clerc wedi dod o hyd i ohebiaeth yn ymwneud â throsglwyddo Mynwent Eglwys Sant Mihangel. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn llungopïo'r dogfennau a'u rhoi i'r Ficer.

Gofynnwyd i'r Clerc wirio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a oedd Gorchymyn Diogelu ar yr hen Onnen wrth y fynedfa i Gae'r Llyn o gyfeiriad Llangwm, ac os nad oedd, sut y dylid mynd ati i gael Gorchymyn Diogelu.

Nodwyd bod ail achos o droseddau wedi digwydd yn y gymuned. Cytunwyd i gysylltu â'r heddlu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Roedd wedi mynd yn anodd iawn cael mynediad at lwybr troed y Cae Cymunedol. Cytunwyd y byddai cyfarfod safle yn cael ei gynnal am 7 p.m. cyn y cyfarfod o bell ar 4 Mai am 8 p.m.

Daeth i sylw'r Cyngor bod estyniad wedi cael ei godi yn Nhroedrhiwlas, Talyllychau ar ochr dde'r eiddo. Cynigiwyd bod y Clerc yn gwirio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynghylch y cais cynllunio.

Cynllunio.

Pwnc PL/01500. Ymgynghoriad ar gais cynllunio. Uned amaethyddol ffrâm ddur arfaethedig – Derwen Deg, Talyllychau. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Datganodd Janine Roberts fuddiant a gadawodd y cyfarfod.

Cais Cynllunio. PL/01573. Tŷ ar wahân at ddefnydd anghenion lleol – tir gyferbyn â Maes y Deri, Talyllychau.

Cafodd llythyr o wrthwynebiad a ddaeth i law, ei ddarllen gan y Clerc.

Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Daeth y cyfarfod i ben tua 10.35 p.m.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o bell ar 4 Mai 2021 am 8 p.m. sef y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.